

BMC CYMRU



CYFARFOD NESAF - 8 CHWEFROR 8:00 P.M.

Faenol Arms - Bwyd am Ddim – Croeso i bawb

Cyflwyniad Gan y Ca-deirydd Newydd – Tom Hutton

Helo bawb, a diolch am beidio bwrw'ch pleidlais yn fy erbyn yn y Cyfarfod Blynyddol. A dweud y gwir roeddwn yn edrych ymlaen at y gwaith erbyn hynny,! Gan obeithio byddaf yn teimlo'r un fath ar ôl ein cyfarfod cyntaf.

I'r rhai hynny ohonoch chi sy ddim yn fy adnabod, dw i'n awdur ac yn ffotograffydd oedd ag uchelgais i fod yn Galen Rowell newydd ond wedi crwydro ac yn crafu bywoliaeth erbyn hyn gan weithio i gylchgro-nau a sgwennu llyfrau arwain. Dw i'n cerdded bryniau ac yn ddringwr brwd ond gwael. Hefyd dw i wrth fy modd yn sgïo

mynyddoedd ac mae fy nawn sgïo yn well o lawer na fy nringo.

Llwyddodd Mike i wneud job ardderchog o greu sîn fywiog y BMC yng Nghymru, ac, yn amlwg, dw innau'n awyddus i ddal ati. Yn ffodus mae Ray yn dal yn ysgrifennydd ac mae gwirfoddolwyr yn barod i roi help imi setlo, felly gobeithio bydd y newid yn ddidrafferth.

Yr un yw'r amcan: dal i weithio ar ran dringwyr, cerddwyr bryn-iau a mynyddwyr yng Nghymru.

Edrychaf ymlaen at groesawu gymaint ag y bo modd i'r Faenol ar yr wythfed, ond yn y cyfamser, os oes gan unrhyw fater

i'w godi, anfonwch neges ataf yn bmccymruwales@live.co.uk

Gweithgaredday'r Gaeaf


Dechreuodd y gaeaf gyda pheth wmbreth o eira a thymheredd o dan y rhewbwynt am gyfnod hir felly bu gweithgareddau cyffrous ar ddringfeydd newydd ledled Eryri. Bu dros 40 o ddringfeydd gaeaf newydd mewn cyfnod o bum wythnos, gan gynnwys dringfa anoddaf Cymru hyd yma gan Pete Harrison (Are You Having it About the Woolly Mammoths XI 10 ar Esgair Maen Gwyn).

Roedd ailadrodd diddorol iawn hefyd, gan gynnwys Terminator ar y Graig Ddu, bu 25 o flynyd-

doedd ers i Stevie Haston ei dringo am y tro cyntaf.

Mae'r North Wales Winter Climbing Guide Ground Up newydd yn y siopau o'r diwedd. Simon Panton a Mark 'Baggy' Richards yw'r awduron, gyda chefnogaeth tîm o sêr gan gynnwys Tim Neill, Chris Parkin, Gaz Davies, Rich Stone, Owen Hayward a Geoff Bennett (gan enwi ychydig yn unig).

Mae'n 220 tudalen (ynghyd â thopos ffoto lliw), a dyma'r gair olaf am yr holl leoedd gaeaf pwysig yng ngogledd Eryri. Hefyd, ceir manylion am yr holl ddringfeydd newydd sy'n hysbys ar y creigiau ymylol, y newyddion diweddaraf ac ailasesiadau cyfoes o raddfeydd (Ydym, o'r diwedd rydym wedi mabwysiadu dull cyfoes yr Alban!).



Cais os gwelwch yn dda - am fod yr arweinlyfr dringo newydd wedi'i gyhoeddi bellach, gofynnir i'r rhai sydd â dringfa newydd roi'r disgrifiad ar wiki gaeaf Cymru <http://welshwinterclimbs.wetpainted.com/> rhag i bobl orfod chwilio am wybodaeth mewn tudalennau o hen newyddion.

Benthyciadau Rhad I Glybiau

Ar hyn o bryd mae Pwyllgor Cyllid y BMC yn treulio amser yn datblygu cynllun i fenthycia arian i glybiau allu adnewyddu cytiau. Enw'r Pwyllgor yw Fin-Com, ac mae'n bwriadu rhoi £200,000 o arian aelodau o'r neilltu ar gyfer y cynllun hwn.

Yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor Cenedlaethol siaradais yn erbyn y datblygiad hwn. Nid wyf o'r farn y dylai'r BMC fod yn gweithredu fel cwmni benthycy arian. Teimlaf ei fod yn annheg fod dwy ran o dair o arian aelodaeth y BMC, sy'n aelodau unigol, yn mynd i roi cymorthdal i aelodau clwb, sy'n dreian yr aelodaeth, ac sy'n talu hanner tâl aelodaeth yr aelodau unigol, y pen.

Dyma'r fath o fater lle dylai'r aelodau ddatgan eu barn a rhoi gwybod i Gynrychiolwyr y Cyngor Cenedlaethol. Cytuno neu beidio, gofynnir ichi roi eich barn gerbron y Cyngor Cenedlaethol Cynrychiolwyr Cymru sef Ray Wood, Stu Llewellyn a Tom Hutton.

Mike Raine

Bolltau Penrhyn Gwyr

Yn ystod y misoedd diwethaf, fe gysylltwyd â'r BMC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynghylch dringfeydd newydd sydd wedi'u diogelu, yn ardal Southgate ar Benrhyn Gwyr, ac nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhan uniongyrchol o bolisi bolltau 2000.

Dywedodd nifer o ddringwyr yn y cyfarfodydd, am eu bod yn gymharol newydd i'r ardal nid oedd ganddynt unrhyw syniad am yr hen bolisi a byddent yn hoffi cyfrannu ato yng ngolau'r

datblygiadau newydd a'r agweddau newydd. Ar ôl llawer o drafod tawel, cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod iawn, gyda chynigiadau terfynol yn 2011 (tua mis Mai) i daro golwg ac i ddiweddarau'r polisi ar gyfer Penrhyn Gwyr. I gael manylion am y cyfarfod hwn ewch i - <http://community.thebmc.co.uk/GetFile.ashx?did=292>.

Hefyd, gallwch ymweld â SWMC wiki i roi eich barn ar folttau Penrhyn Gwyr. http://www.southwalesmountaineering.org.uk/g_book/index.php/Talk:Bolt_policy_on_Gower

Nodyn Atgoffa am Bacon Hole

Dyma safle sydd yn bwysig dros ben o ran yr archeoleg a'r cadwraeth. Ceir yma frain coesgoch yn nythu ac mae'n nythfa bwysig i ystlumod - gyda dros wyth o rywogaethau gwahanol yma. Dynodir yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig am resymau daaregol ac mae'r llawr pridd yn cynnwys nifer o olion wedi'u ffosileiddio, gan gynnwys mammoth gwlanog ac anifeiliaid eg-sotig eraill a fu'n crwydro'r ardal cyn Yr Oes Iâ olaf.

Mae'n bwysig yn rhyngwladol, ac efallai mai dyma'r safle pwysicaf o'r fath yn Ewrop. Felly nid yw'r perchnogion sef yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn caniatáu dringo yma. Stuart Llewelyn

Rhaeadr Maesglasau

Bydd gan ddringwyr sy'n bwriadu dringo Rhaeadr Maesglasau ym mrynau Dyfi ddiddordeb gwybod bod y ffermwr/tirfeddiannwr, sy'n bendant o blaid dringwyr, wedi gofyn ichi alw heibio'r ffermdy wrth ichi fynd drwy'r buarth wrth fynd at y rhaeadr. Hefyd, gofynnir ichi

roi gwybod iddo ar eich ffordd yn ôl.

Gall olygu ychydig o oedi ar eich ffordd adre ond pris bychan ydy hynny am gynnal perthynas dda ar ddringfa mor glasurol. Mae'n golygu hefyd y gallwch ddisgwyl help os aiff pethau o chwith.

Mae'n debyg bod ychydig o ddrama ychydig o flynyddoedd yn ôl oedd yn ymwneud â dringwr unigol, gan arwain at y fath o achub annifyr y byddai'n well ganddo osgoi eto.

Gan obeithio y gwelwn y rhaeadr yn ôl ac mewn cyflwr iach eto eleni.

Malcolm Fraser



Adroddiad MLTW (Rhagfyr 2010)

Mynegwyd pryder yn y Cyfarfod Bwrdd diwethaf ynghylch efaith arfaethedig toriadau gwario'r Llywodraeth ar gyllideb Chwaraeon Cymru ac o ganlyniad i hynny ar yr ariannu ar gyfer Hyfforddiant Mynyddoedd.

Cytunwyd y dylid chwilio am ffynonellau ychwanegol o ariannu.

Adroddodd Bob Pew bod y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored yn gryfach bellach oherwydd penodiad ymgynghorydd newydd Ynys Môn, Martin Land (ar hyn o bryd yn Ddarparwr MLTW ac yn Gymro Cymraeg).

Adroddodd Ian Gwylim, oedd yn cynrychioli'r Adran Addysg yng Nghymru, mai tua 15,000 yw'r nifer o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn alldeithiau yng Nghymru. Rhoddodd fraslun o'r ffordd mae'r Adran Addysg yn rheoli bob gr_p ac yn cofnodi unrhyw ddiwyddiadau.

Roedd Ian o'r farn fod y digwyddiadau diweddar yn fai'r sefydliadau o gnafon nad oeddynt yn dilyn y dull gweithredu cywir. Awgrymodd. Bryn Williams y dylai'r sefydliadau sy'n ymwneud â phobl ifanc ystyried cytuno ar drefn gyda'r Timoedd Achub Mynyddoedd, er mwyn i wybodaeth am unrhyw alwadau gael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau priodol, am ei bod yn bosib y gellir dysgu rhai gwersi pwysig.

Dywedodd Sally Rhodes (Girl Guiding UK) ac Ian Gwylim bod gan eu sefydliadau hwy ddulliau trylwyr o fonitro a chofnodi digwyddiadau, ond roeddynt o'r farn ei fod yn bosib na chofnodwyd rhai digwyddiadau dibwys, er bod y Tim Achub wedi bod yn rhan ohonynt.

Cytunodd Bryn Williams (Swyddog Datblygiad Cenedlaethol MLTW ac aelod o Dim Achub Llanberis) i anfon unrhyw ddiwyddiad oedd yn ymwneud â phobl ifanc a'r Tim Achub at aelodau perthnasol y Bwrdd.

Andy Boorman is-gadeirydd MLTW, BMC Cynrychiolydd Cymru

DMM yn y Wal Ddringo Indy

Bydd staff DMM yn y Wal Ddringo Indy (Llanfair PG) ar 15 Chwefror o 6.30 p.m. i ateb unrhyw gwestiynau am offer dringo ac i siarad am y dull cynhyrchu, gan gynnwys dylu-

nio, rheoli ansawdd a phrofi. Bydd ganddynt enghreifftiau o garabiners ar bob adeg o'r cynhyrchu er mwyn dangos y newid o far alwminiwm i'r carabiner gorffenedig.

Bydd profwr tynol DMM ar gael i ddangos y dull o brofi, felly cofiwch ddod ag unrhyw nwyddau metel yr hoffech eu profi hyd at ddinistr!

Bydd gennym ddewis llawn o gyfarpar i'w ddangos ac i bobl ei ddefnyddio ar y noson - gan gynnwys harneisiau. Gellir cymharu Dragon Cams, 4CUs, Wallnuts and Offsets gan ddefnyddio'r dewis o leoedd gafael traddodiadol sy'n caniatáu i'r rhai sy'n eu defnyddio osod cyfarpar diogelu.

Bydd raffl bob nos a sticeri, poster a modrwyon allweddi.



Cronfa Bolltau Gogledd Cymru

Roedd dringwyr lleol, gan gynnwys Andy Boorman, Pete Harrison a Chris Parkin yn cymryd rhan yn y dasg o brofi'r holl orsafoedd Lower-off/belay ym Mhen Trwyn uchaf ar y Gogarth. Mae'n waith angenrheidiol i sicrhau mynediad parhaol. Y BMC a ariannodd y project hwn i dalu am yr holl gostau a'r deunydd. Roedd pawb a gymerodd ran wedi gwrthod y costau a rhoddwyd yr holl arian a dalodd y BMC i'r Gronfa Bolltau. Mae'r BMC wedi dyrannu £2000 o gyllideb

2011 i barhau gyda'r gwaith hwn.

Mae trefn y Gronfa Ariannu'n un llac, a'r amcan yw bod o gy-morth i unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn datblygu dringfa newydd ac ailosod offer. Mae offer gwrthstaen o ansawdd uchel yn costio o leiaf bedair gwaith yn fwy na'r offer rhad, ac wrth helpu gyda'r costau a swmp brynu am bris gostyngol fe sicrhodd y gronfa y bydd y rhan helaeth o'r offer newydd yn para.

Ar hyn o bryd mae gan y gronfa gasgliad da o folltau ehangiad a bolltau resin, offer a driliau.

Cyswllt:
northwalesboltfund@googlemail.com
<x-msg://17/northwalesboltfund@googlemail.com>

Cynigiodd Chris Parkin gynnal 'hyfforddiant gosod bolltau' os oes gofyn.

Derbyniodd The NWBF (North Wales Bolt Fund) ychydig o roddion Pay pal y llynedd.
<<http://northwalesboltfund.webs.com/>>

Chris Parkin

NEWYDDION PENFRO

Adar a Gwaharddiadau

Bû'n weddol dawel yma yn ddiweddar, oherwydd y tywydd oer a gwlyb. Cawsom ein cyfarfod cyswllt Dringo Creigiau blynyddol yn Nhachwedd a chytuno ar y cyfyngiadau ar gyfer y tymor nesaf. Ni fu unrhyw newidiadau mawr ond mae rhai o'r cyfyngiadau wedi cael eu haddasu ychydig ar ôl rhai ymweliadau defnyddiol iawn â'r safle gan Elfyn Jones, Bob Haycock (CCW) a Lynne Houl-

ston. Rydym wedi darganfod ychydig mwy o ddringfeydd y gellir eu dringo yn Mewsford sydd rhwng y mannau nythu. Ond mae rhai cyfyngiadau sy'n debygol o gael eu newid ychydig ar y funud olaf, yn ôl pa safleoedd bydd y brain coesgoch yn eu dewis. (Trevallen).

Efallai y bydd hyn yn fwy anodd na'r arfer am fod Lynne ar gyfnod mamolaeth yn y gwanwyn ac mae Bob yn ymddeol ym mis Mawrth.

Dylwn ddweud 'diolch o galon' i Bob Haycock, a wnaeth ddiwrnod da o waith dros nifer o flynyddoedd yn rhoi cymorth i gael y cyfyngiadau oherwydd adar yn gywir yng Ngogledd a De Penfro. Yn aml iawn, daeth allan ar fyr rybudd i wirio safle nythu newydd ac mae wedi'n helpu i osod cyfyngiadau cytbwys sy'n addas i'r adar penodol heb osod rhwystrau nad ydynt yn hollol hanfodol ar unrhyw ddringfeydd. Gobeithio y byddwn yn gallu trefnu rhai ymatebion cyflym rhwng dringwyr lleol a'r CCGC/Parc Cenedlaethol.

Arweiniad Newydd

Mae'r arweiniad CC newydd ar ei ffordd erbyn hyn. Mae Range East yn cael ei osod ar y funud, dylai fod ar werth erbyn y Pasg. Nid yw Lydstep a Stackpole ymhell ar ôl. Mae Gogledd Penfro bron yn barod hefyd, ar wahân i ychydig o greigiau eg-sotig neu greigiau crap yn y gogledd.

Adnewyddu Stanciau

Rwy'n gobeithio gosod stanciau newydd yn y Flwyddyn Newydd yng Ngogledd Penfro. Hefyd rwy'n cynllunio mynd ati i dynnu'r stwfflau a'r bolltau

anghyfreithiol o'r creigiau glan môr naturiol ym Mhorthgain. Croesewir unrhyw awgrymiadau ar sut i dynnu styffylau dur soled o graig dolerit galed. Hyd yn hyn, methiant fu bob ymgais!
Steve Quinton



Wal Ddringo Prestatyn

Mae'r wal fach bowldro a rhaffu-uchaf wych hon mewn cwrt sboncen yn y Ganolfan Hamdden, Prestatyn. Mae ar gael i'w defnyddio'r rhan fwyaf o ddiwrnodau a gyda'r hwyr ac yn lle i nifer o glybiau bywiog i blant a'r sîn fowldro leol dda. (Cysylltwch â 01745 855632). Mae'n wal unigryw am ei bod yn gyfuniad o baneli sydd â nodweddion da o dair ffynhonnell wahanol: adeiladwyd y brif ran gan Dîm Wal Ddringo Beacon, adeiladwyd un ardal gan y cwmni o Stoke, PME, ac efallai bydd y dringwyr hynaf yn adnabod y paneli sydd ar y rhan olaf am eu bod o'r hen wal ddringo 'Bunker' ger Deiniolen.

Bob mis Rhagfyr, tynnir y lleoedd gafael a folliwyd ac a sgrifiwyd ymlaen, a'u golchi mewn peiriant golchi llestri i'w hadnewyddu. Gwneir y gwaith o dan ofal yr hyfforddwr pre-

swyl Dave Prendergast a ddechreuodd ei yrfa dringo yn 1978 pan roedd yn Neptune 2a, Ysgol Uwchradd Prestatyn yng nghwmni Andy Pollitt. Mae Dave yn cael cymorth i gyflawni'r dasg enfawr hon gan dîm o wirfoddolwyr sy'n cynnwys Danny Garnett (dringwr a hyfforddwr lleol arall), Paul Ingram, George Bradford, Beth Tansley, Toni Emery a Sarah Finney.

Eleni bu Ruth Taylor, Andy Turner ac Andy Boorman yn gosod dringfeydd ac yn difetha'u corff a'u bysedd i greu 54 o broblemau meini sy'n amrywio o raddfa 3a i 6c (yn cael eu graddio'n draddodiadol yn ol dull rhifol y DU).



Ddydd Sul 19eg Rhagfyr, er bod teithio'n anodd, daeth 35 o gystadleuwyr (a nifer o gefnogwyr) i'r Gystadlaeth Bowldro flynyddol ym Mhrestatyn, a gynhelir mewn ffordd anffurfiol ond rhyfeddol o gystadlaeuol. Daeth Mike o Boreal â nifer o esgidiau amrywiol inni'u trio a daeth Chris Cotswold Rock Bottom â nifer o wobrau gwych a noddwyd gan Buff.

Daeth nifer fawr i'r digwyddiad o'r gorllewin: y teuluoedd Henderson, Lyons o Ben Llyn a Parkins o Ynys Môn, Balls o Dregarth y cwbl wedi teithio draw i fod yn wrthwynebiad cryf i'r bobl leol, ond Matt Keyse o Fetws-y-Coed a ddisgleiriodd yn yr holl broblemau dynion gan gynnwys UK 6c.

Un cwyn yn unig a gafwyd: cafodd rhywun enwog yr ail le oherwydd bod picell rhew

wedi'i gwahardd ar y wal arbennig hon.

Canlyniadau'r cystadlaethau:

Merched 7-9

*1af Hannah Swann
2il Olivia Fairclough*

Bechgyn 7-9

*1af Archie Ball
2il Solomon Gibbs*

Merched 10-12

*1af Abi Henderson
2il Amy Lloyd*

Bechgyn 10-12

*1af Bailey Laim
2il Robert Parry*

Merched 13-15

*1af Josie Ball
2il Cara Lyons*

Bechgyn 13-15

*1af Alex Kitts
2il Unrhyw un arall a drafferthodd i gystadlu!*

Merched - agored

*1af Josie Ball
2il Monika Paprzycka*

Hen lawiau – merched (dros 21 yn ôl pob golwg)

*1af Gill Parkin
2il Tynnodd yr holl wrthwynebwyr yn ol ar ol i Gill ymgeisio.*

Dynion - agored

*1af Matt Keyse
2il Andrew Lyons*

Dynion -hen lawiau (yn honedig o dan 60)

*1af Roger Bennion
2il Chris Parkin*

Welwn i chi wrth y Wal.
Andy Boorman

Ymddiriedolaeth Treftadaeth Y Mynyddoedd

Oherwydd yr eira, methais gyfarfod â'r Ymddiriedolaeth yn BMC ar ddydd Gwener 17 Rhagfyr. Ond, o'r cofnodion oedd yn dilyn, gallaf ysgrifennu adroddiad byr.

Dyma gyfarfod cyntaf Julie Summers yn gadeirydd newydd yr Ymddiriedolaeth - Croeso Julie. Tynnwyd sylw at y ffaith na ellir gwneud unrhyw geisiau at y Gronfa Loteri Treftadaeth (HLF) tra bo'r Ymddiriedolaeth yn derbyn grant HLF am wneud gwaith ar y casgliad Bonington.

Bydd y ddarlith Eiger arfaethedig ar 1 Rhagfyr yn y RGS.

Penodwyd Terry Griffiths (y cadeirydd sy'n dod i ben) yn un o feirniaid G_yl Ffilmiau Kathmandu. Croesawn Maxine Willet, yr archifydd, yn ôl ar ôl trimis o waeledd.

Ac i gloi, am fod ariannu yn y dyfodol yn parhau'n bryder, cytunodd yr Ymddiriedolaeth i gyflogi rhywun i godi arian yn fasnachol am gyfnod byr, a bydd yn taro golwg ar bosibilrwydd ariannu cynysgaethau.
K. C. Gordon

Canllawiau i gyfranwyr y Newyddlen

Gofynnwyd inni roi ychydig o ganllawiau i'w gwneud hi'n haws i gyfrannu at y newyddlen hon – felly ffwrdd â ni.

1. Yngl_n â'r pynciau: ni biau'r newyddlen hon, felly ni sy'n dweud beth sydd i fod ynddi. Os ydy o o ddiddordeb i'r bobl sy'n dringo, a mynydda yng Nghymru, hoffem glywed amdano.

2.Yr un gorau, efallai ydy Microsoft Word neu Simple Text ond byddai testun mewn ebost yn hawdd delio efo fo. Cadwch y fformatio'n syml.

3. Os allwch chi feddwl am deitl – rhowch un. Os na allwch, yna gallwn ni feddwl am un yma.

4. Peidiwch â phoeni gormod am y gramadeg a'r sillafu-gallwn ni olygu.

5. Cadwch at uchafswm o 200 o eiriau os gallwch chi. Gall unrhyw un sydd am ysgrifennu'n helaeth anfon darn at y rhifyn nesaf o Summit

6. Cofiwch anfon lluniau i esbonio'ch stori. Mae'n well eu hanfon mewn jpg. ac yn llai na 500KB, ond os ydych chi'n ansicr, cysylltwch efo ni a gallwn feddwl am rywbeth.

Tom Hutton



CÔD CREIGIAU
www.thebmc.co.uk

Mynediad	Gwiriwch y gronfa-ddata mynediad rhanbarthol (RAD) ar www.thebmc.co.uk am y gwybodaeth diweddaraf ynglun â mynediad	Bywyd gwyllt	Peidiwch darfu ar da byw, anifeiliaid gwyllt, neu llystyfiant ar y clogwyni; parchwch gyfyngiadau tymhorol nythu adar
Parcio	Parciwch yn ofalus gan osgoi giatiau a thramwyfeydd	Cŵn	Cadwch cŵn o dan rheolaeth ar bob achlysur; peidiwch gadael eich ci hel defaid neu darfu ar bywyd gwyllt
Llwybrau	Cadwch at y llwybrau sydd wedi'u sefydlogi. Gadwch giatiau fel 'rydych yn eu ffeindio	Sbwriel	Peidiwch gadael olion – cymrwch eich sbwriel i gyd adref gyda chi
Peryglon	Gall dringo fod yn beryglus-derbyniwch y peryglon a byddwch yn ymwybodol o bobl eraill o'ch cwmpas	Tai bâch	Peidiwch gwneud llanast – claddwch eich gwastraff
Parch	Grwpiau ac unigolion- parchwch y graig, moeseg dringo lleol a phobl eraill	Economi	Gwnewch popeth a fedrwch i gefnogi'r economi gwledig-prynnwch yn lleol

Datganiad cyfranogaeth y BMC — mae dringo, cerdded brynau a mynnydda yn weithgareddau gyda perygl o niwed personol neu marwolaeth. Dylai cyfrannogion yn y gweithgareddau yma fod yn ymwybodol o'r peryglon ac yn fodlon eu derbyn, a dylent fod yn gyfrifol am eu gweithredau a'u cysylltiad.